



CFASCYMRU
GWEITHREDIAD GWYBYDDOL A HENEIDDIO
CFASWALES
COGNITIVE FUNCTION AND AGEING



Prifysgol Abertawe
Swansea University



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am y Prosiect (Rhagfyr 2012):

Mae prosiect CFAS Cymru'n mynd rhagddo'n dda ac rydym ychydig dros hanner ffordd trwy'r cyfweiliadau cyntaf. Erbyn diwedd Tachwedd roeddem wedi cwblhau 1489 o gyfweiliadau trwy Wynedd, Ynys Môn, Castell-nedd a Phort Talbot. Mae'r rhain wedi rhoi gwybodaeth werthfawr i ni am heneiddio a byw'n hŷn yn yr 21ain ganrif.

Yn ogystal â'r prif gyfweiliadau, mae Eryl Roberts, Swyddog Astudiaethau Clinigol Sefydliad Ymchwil Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Canolfan Ymchwil Clinigol (NISCHR CRC), yn y broses o gysylltu â rhai o'r bobl sy'n cymryd rhan yn y prosiect yng Ngogledd Cymru sydd wedi cytuno i roi sampl gwaed i ni ar gyfer yr astudiaeth. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio i edrych ar wahanol fesurau yn cynnwys lefelau glwcos a B12. Hefyd byddwn yn lansio rhan ansoddol y prosiect y mis yma lle bydd ein cyfweilwyr ansoddol yn edrych ar y swyddogaeth wybyddol, maeth, gwytnwch a rhwydweithiau cymdeithasol yn fanylach gyda rhai unigolion.

Hoffem ddiolch i'r holl feddygfeydd a'u staff sydd wedi ein helpu i recriwtio pobl ar gyfer yr astudiaeth hon. Gwerthfawrogir yn fawr eich cefnogaeth barhaus; heb eich cymorth chi, ni fyddai'r ymchwil yma yn bosibl.

Hoffem ddiolch hefyd i bawb sydd wedi cymryd rhan yn yr astudiaeth hyd yma ac edrychwn ymlaen yn fawr at gyfarfod mwy ohonoch chi'r flwyddyn nesaf!

Cyflwyno Delyth:

"Fel rhan o dîm CFAS Cymru o swyddogion cefnogi cynllun ymchwil yn gweithio o Fangor, mi ydw i wedi treulio'r 18 mis diwethaf yn darganfod lonydd a phentrefi drwy Wynedd ac

Ynys Mon o'r newydd. Wedi byw yn yr ardal am dros 35 mlynedd ers fy nyddiau coleg a wedi magu teulu yma bellach, mae'n syndod cyson gen i weld olygfa hyfryd arall rownd rhyw gornel annisgwyl.

Fodd bynnag, y syndod mwyaf i mi yw'r hyn yr wyf wedi dysgu gan yr unigolion yr wyf yn cyfarfod. Nid yn unig maent yn fodlon roi o'u hamser i gynorthwyo gyda'r cynllun, ond maent yn aml iawn yn rhannu doethineb a phrofiadau bywyd sydd yn sicr o ysbrydoli. Mae'n anodd cyfiawnhau diogi wedi i rhywun gyfarfod person 97 mlwydd oed sydd yn dal i blannu tatws neu person 88 mlwydd oed sydd yn seiclo'n bellach na chi! Mae'n glir fod gofyn i mi fwrw ymlaen."



**Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd
Dda gan
Dîm CFAS Cymru!**

Canolfan Heneiddio Arloesol
Coleg y Gwyddorau Dynol a Iechyd
Prifysgol Abertawe, Ystafell 313,
Adeilad Vivian, Parc Singleton
Abertawe SA2 8PP.



Bangor: 01248 383050
Swansea: 01792 606386

<http://cfaswales.bangor.ac.uk/>

Sefydliad Ymchwil Gofal Meddygol a
Chymdeithasol,
Prifysgol Bangor,
45 Ffordd y Coleg, Bangor,
Gwynedd, LL57 2DG